# Cytundeb Cartref / Ysgol

| Ysgol Gymraeg Aberystwyth<br>• Cymreictod<br>• Parchu ein gilydd<br>• Gwneud ein gorau glas | **Fel rhiant / gwarcheidwad byddaf yn gwneud fy ngorau i:** | **Fel disgybl byddaf yn gwneud fy ngorau i:** | **Fel ysgol byddwn yn gwneud ein gorau i:** |
|---|---|---|---|
| **Ethos** | • siarad Cymraeg gyda fy mhlentyn.<br>• annog fy mhlentyn i barchu disgyblion eraill<br>• annog fy mhlentyn i wneud ei orau / gorau glas | • siarad Cymraeg<br>• barchu disgyblion eraill<br>• wneud fy ngorau glas | • sicrhau fod y disgyblion yn siarad Cymraeg,<br>• sicrhau fod disgyblion yn parchu eraill<br>• sicrhau fod disgyblion yn gwneud eu gorau glas |
| **Bod yn barod i'r ysgol** | • ddanfon fy mhlentyn i'r ysgol yn lân a thaclus ac mewn gwisg addas<br>• sicrhau fod offer addas gan fy mhlentyn ar gyfer diwrnod ysgol e.e câs pensiliau, gwisg Addysg Gorfforol | • gadw fy hun yn lân a thaclus<br>• ddod â'r offer cywir ar gyfer gwneud fy ngwaith yn yr ysgol | • hyrwyddo gwisg addas a glendid a thaclusrwydd personol<br>• sicrhau fod y plentyn yn ymwybodol o'r offer sydd angen ar gyfer diwrnod ysgol |
| **Presenoldeb a phrydlondeb** | • sicrhau fod fy mhlentyn yn bresennol ac yn brydlon bob dydd | • fynychu'r ysgol yn feunyddiol ac yn brydlon | • annog presenoldeb a phrydlondeb drwy'r amser |
| **Gwaith dosbarth a Gwaith cartref** | • gymryd diddordeb yng ngwaith fy mhlentyn a'i gefnogi tra'n ei gwblhau.<br>• annog fy mhlentyn i wneud ei (g)orau.<br>• sicrhau fod fy mhlentyn yn gwneud y gwaith cartref yn rheolaidd | • wrando ar yr athrawon<br>• gweithio'n galed<br>• wneud yn siwr fy mod yn gwybod yn union beth yw'r dasg gwaith cartref cyn gadael yr ysgol, ei wneud a'i ddychwelyd ar amser ac yn daclus | • ddysgu'n effeithiol ac yn bwrpasol<br>• baratoi eich plentyn mewn ystod eang o destunau o fewn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac ar gyfer ei dyfodol<br>• osod gwaith priodol a'i farcio'n ystyrlon ac yn rheolaidd<br>• osod gwaith cartref rheolaidd |
| **Ymddygiad** | • annog fy mhlentyn i feithrin a datblygu safonau uchel o ymddygiad bob amser | • ymddwyn yn dda o fewn a thu allan i'r ysgol<br>• ddilyn rheolau'r ysgol | • annog safonau uchel o ymddygiad yn unol â rheolau'r ysgol |
| **Cymorth bugeiliol** | • hysbysu'r ysgol os oes problem sy'n debygol o effeithio ar addysg fy mhlentyn | • adael fy athro wybod os oes unrhyw broblemau gennyf cyn gadael yr ysgol | • wrando ac ymateb i broblemau neu ofidiau yn syth |
| **Cysylltiadau cartref ac ysgol** | • fynychu cyfarfodydd rhieni<br>• ddarllen pob llythyr o'r ysgol ac ymateb iddynt os oes eisiau<br>• gefnogi'r ysgol fel bo'r gofyn e.e disgyblaeth | • ddangos pob llythyr a roddwyd i mi gan yr ysgol i'm rhieni | • gynnal cyfarfodydd rhieni yn rheolaidd<br>• adrodd yn rheolaidd ar ddatblygiad, presenoldeb a phrydlondeb eich plentyn yn yr ysgol<br>• eich hysbysu am unrhyw ofid sydd gennym ynglyn â'ch plentyn |
| **Bywyd allgyrsiol yr ysgol** | • gefnogi'r gweithgareddau mae'r ysgol yn ei gynnal, e.e cyngerdd, garddwest | • fanteisio ar y cyfleoedd sy'n cael ei rhoi i mi yn yr ysgol, e.e nofio, cyrsiau, cyngherddau | • eich hysbysu am ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal neu mae'r ysgol yn rhan ohonynt |
| ***Llofnodion:*** | ***Rhiant/ Gwarcheidwad***<br><br>***Dyddiad:*** | ***Disgybl:***<br><br>***Dyddiad:*** | ***Ysgol:***<br>*R Clive Williams*<br>***Dyddiad: Medi 2012*** |